# Trwydded Caffi Stryd Caerdydd - Telerau ac Amodau

06 Ebrill 2021

Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg / This form is available in English

Gall caffis stryd wneud cyfraniad cadarnhaol i ganol y ddinas, Bae Caerdydd a chanolfannau ardal/lleol drwy ychwanegu bywiogrwydd, lliw, bywyd a diddordeb i'r strydlun. Gallant helpu i wneud y defnydd gorau posibl o fannau cyhoeddus, cynorthwyo'r economi leol ac ychwanegu at y cyfleusterau sydd ar gael i bobl sy'n ymweld â'r ddinas, ac sy'n byw ac yn gweithio ynddi.

Er ein bod yn annog caffis stryd, mae'n bwysig iddynt gael eu gweinyddu a'u rheoli'n gywir i sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau uchel a ddisgwylir yng Nghaerdydd. Ni ddylent rwystro'r briffordd nac achosi perygl.

## Telerau ac Amodau'r Drwydded

1. Ni ddyfernir trwyddedau caffis stryd ond i gaffis, bwytai, tafarndai neu sefydliadau arlwyo eraill sy'n gweini bwyd a diod o fewn y safle.

2. Caniateir caffis stryd dim ond pan fo'r rheiny at y diben o roi pobl i eistedd wrth fyrddau. Nid ystyrir bod ardaloedd ar gyfer yfed ar eich traed/yn fertigol yn dderbyniol.

3. Gall methu â chydymffurfio â'r manylion a nodir yng **Nghanllaw Dylunio Caffi Stryd Caerdydd** arwain at wrthod, atal, terfynu neu beidio ag adnewyddu'r drwydded.

4. Atgoffir trwyddedeion y gall defnyddio caffis stryd yn gyffredinol achosi sŵn/aflonyddwch a bod angen parchu busnesau a phreswylfeydd eraill gerllaw. O ran yr egwyddor 'cyfrwng newid', lle cynigir caffi stryd, cyfrifoldeb y trwyddedai yw sicrhau yr eir i'r afael ag atebion i liniaru sŵn drwy ei gynigion a sicrhau (lle rhoddir trwydded) ei fod yn glynu wrthynt yn ystod y gweithrediad dilynol (gall hyn, er enghraifft, gynnwys oriau gweithredu). Gall methu â mynd i'r afael ag effeithiau o'r fath arwain at wrthod, atal, terfynu neu beidio ag adnewyddu'r drwydded.

5. Cyn cytuno i drwyddedu caffi stryd ar briffordd, rhaid i'r Cyngor sicrhau nad effeithir yn andwyol ar hawliau'r cyhoedd i ddefnyddio'r briffordd.

6. Mae'n ofynnol hefyd cydymffurfio â deddfau, polisïau a safonau'r Cyngor am resymau iechyd, diogelwch ac amgylcheddol.

7. Mae'r canllaw hwn yn ymwneud â chaffis stryd ar y briffordd yn unig. Ni chwmpesir caffis ar dir preifat yn y canllaw hwn. Nid oes angen trwydded caffi stryd arnynt, er y bydd angen caniatâd cynllunio arnynt. Dylech holi'r Cyngor er mwyn sefydlu statws y tir dan sylw. Efallai y bydd tir yr ydych chi'n ei ystyried yn dir preifat bellach yn briffordd os yw'r cyhoedd wedi gallu ei ddefnyddio ers o leiaf ugain mlynedd neu os yw'r Cyngor wedi mabwysiadu'r tir yn ffurfiol.

8. Y Cyngor fel yr Awdurdod Priffyrdd dan Adran 115E Deddf Priffyrdd 1980 sy'n rhoi Trwydded (hawl) i ddefnyddio'r briffordd fel caffi stryd. Mae byrddau a chadeiriau sy'n cael eu rhoi ar y briffordd heb ganiatâd yn rhwystr anghyfreithlon a bydd y Cyngor yn cymryd camau gorfodi mewn achosion o'r fath.

9. Os dymunwch weini alcohol i’w yfed yn yr ardal a ddiffiniwyd ar gyfer eistedd, bydd angen trwydded safle arnoch sy’n caniatáu gwerthu ac yfed alcohol ar, ac oddi ar, yr ardal ddiffiniedig honno. Gellir gwneud cais am drwydded lleoliad neu i amrywio trwydded lleoliad drwy'r awdurdod trwyddedu lleol, Cyngor Sir Caerdydd.

10. Os yw’r ymgeisydd yn gwmni cyfyngedig neu’n Bartneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig, a bod y cwmni wedi'i ddiddymu, wedi mynd i ddwylo’r gweinyddwr, neu wedi methdalu, bydd y drwydded yn annilys ac ni fydd caniatâd ar gyfer yr ardal sydd wedi'i diffinio. Ni ellir felly drosglwyddo’r drwydded caffi stryd. Bydd yn rhaid gwneud cais am drwydded caffi stryd newydd gan weithredwr newydd.

11. Os yw’r ymgeisydd yn unig fasnachwr neu’n bartneriaeth anghorfforedig, ar ôl i’r person neu’r partner hwnnw fynd yn fethdalwr bydd y drwydded yn annilys ac ni chaniateir defnydd o’r ardal ddiffiniedig. Ni ellir felly drosglwyddo’r drwydded. Bydd yn rhaid gwneud cais am drwydded caffi stryd newydd gan weithredwr newydd.

12. Dim ond deiliad presennol y drwydded safle all fod yn ymgeisydd / gweithredwr y drwydded caffi stryd (os oes gan y safle drwydded safle). Ni dderbynnir unrhyw weithredwyr trydydd parti.

13. Nid yw’n briodol gosod maint safonol ar gyfer caffis stryd. Caiff pob cais ei werthuso’n ôl ei rinweddau gan ystyried nodweddion y safle, y gofod sydd ar gael a’r cynllun a gynigir. Ceir canllawiau manylach yn y **Canllaw Dylunio Caffis Stryd Caerdydd.**

14. Yn gyffredinol, rhaid i’r caffi stryd feddiannu ardal yn union o flaen eich safle presennol a rhaid bod modd ei weld oddi yno.

15. Mae hefyd angen i unrhyw gynnig i estyn caffi stryd y tu hwnt i ffryntiad eich siop gael caniatâd gan unrhyw ffryntiad arall â buddiant yr effeithir arno gan y cynnig.

16. Rhaid ystyried anghenion defnyddwyr eraill y briffordd e.e. cerddwyr, masnachwyr a busnesau cyfagos. Rhaid cynnal llwybr clir i gerddwyr ar hyd y stryd bob amser.

17. Ni cheir lleoli caffis stryd lle byddant yn amharu ar linellau gweld gyrwyr neu’n cuddio arwyddion priffordd.

18. Ni chaiff caffi stryd rwystro llwybrau dianc mewn argyfwng o’ch adeilad chi na rhai cyfagos, a rhaid i gerbydau gwasanaethau brys gael mynediad ar hyd pob stryd bob amser, hyd yn oed mewn strydoedd i gerddwyr.

19. Mae cynllun dodrefn y caffi stryd a’r dull o’i amgáu’n gorfod cynnig mynediad digonol a gofod cylchredeg i bob cwsmer.

20. Os bwriedir gweithredu’r caffi pan fydd hi’n dywyll rhaid i’r ymgeisydd ystyried lefel y goleuo yn yr ardal gaffi arfaethedig. Er y gallai hyn fod yn ddigonol i briffordd gallai fod angen ategu ato fel y gall eich caffi weithredu’n ddiogel.

21. Unwaith y bydd ardal y caffi stryd wedi’i chytuno, atodir cynllun terfynol o’r ardal i’r drwydded caffi stryd, yn dangos y ffiniau a’r dimensiynau, a bydd yn ffurfio rhan o’r drwydded. Rhaid i gopi o’r drwydded a’r cynllun cysylltiedig gael eu dangos ar flaen y safle ar bob adeg a bod ar gael i’w harchwilio.

22. Mae'n bwysig cadw at ddimensiynau a chynllun y caffi stryd bob amser. Rhaid i bob gweithgaredd sy’n gysylltiedig â’r caffi fod o fewn y ffin y cytunwyd arni gan gynnwys pob bwrdd, cadair, parasol, blwch plannu a rhwystrau.

23. Nodir yr eitemau o ddodrefn stryd ac arddulliau dylunio cysylltiedig a ganiateir yn **Canllaw Dylunio Caffis Stryd Caerdydd.**

24. Ym mhob achos, bydd yn rhaid i chi ddarparu dull cludadwy o amgáu ar gyfer ardal y caffi stryd. Rhaid iddynt fod yn sefydlog ac yn gadarn, heb ddarnau sy’n ymwthio allan a rhaid iddynt gynnwys rheilen dapio.

25. Mae modd caniatáu rhywfaint o hysbysebu/arwyddion ar y rhwystrau amgáu, ond caiff hyn ei gyfyngu i enw/logo’r caffi’n unig. Ni ellir eu defnyddio i hysbysebu gwasanaethau neu gynhyrchion a werthir. Anogir y defnydd o arwyddion Cymraeg a dwyieithog.

26. Rhaid cynllunio'r holl ddodrefn at ddefnydd masnachol a rhaid iddynt gydymffurfio â safonau perthnasol BS EN, gan gynnwys:

    a) BS EN 16139:2013 Lefel prawf 1 – ‘Dodrefn – cryfder, gwydnwch a gofynion diogelwch seddi annomestig’.

    b) BS EN 15372:2008 Lefel prawf 2 – ‘Dodrefn – cryfder, gwydnwch a gofynion diogelwch byrddau annomestig’.

27. Os bwriedir defnyddio parasolau, mae’n rhaid pan fyddant wedi eu hagor, fod wedi eu gosod yn sownd a diogel ac yn gyfan gwbl o fewn ffiniau’r caffi stryd fel nad ydynt yn achosi rhwystr na pherygl.

28. Ni chaniateir unrhyw fath o gazebo neu gysgodlen amgáu.

29. Nid argymhellir defnyddio gwresogyddion allanol. Os yw'r Trwyddedai yn dymuno defnyddio gwresogyddion allanol, nid yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw atebolrwydd drostynt a chyfrifoldeb y Trwyddedai yw asesu goblygiadau iechyd a diogelwch gosod y gwresogyddion dan sylw.

30. Ni fydd y Cyngor yn caniatáu cysylltu unrhyw ffitiadau neu gloddiad i wyneb y briffordd, o unrhyw fath, a rhaid gwneud pob ymdrech i osgoi achosi difrod i'r briffordd neu eiddo cyfagos. Gallai cost unioni unrhyw ddifrod i arwyneb y briffordd neu i gelfi stryd a achosir gan unrhyw weithgarwch sy’n gysylltiedig â gweithredu’r caffi stryd gael ei chodi ar y Trwyddedai.

31. Bydd y Trwyddedai’n gyfrifol am lendid ardal y caffi stryd bob amser. Rhaid gofalu hefyd nad yw sbwriel yn mynd ar grwydr nac yn cael ei chwythu ymaith. Rhaid cadw ardal o tua 5 metr o amgylch y safle yn glir o unrhyw sbwriel o’r caffi stryd aiff ar grwydr neu gaiff ei chwythu ymaith.

32. Rhaid sgubo ardal y caffi stryd pan fo angen i’w chadw’n glir o sbwriel a gwastraff. Rhaid clirio unrhyw beth a gaiff ei arllwys neu ei dorri, yn enwedig gwydrau a llestri, ar unwaith. Rhaid glanhau ardal y caffi yn drylwyr ar ddiwedd pob diwrnod masnachu a rhaid clirio’r holl fonion sigarét.

33. Bydd peidio â chydymffurfio â'r gofynion glanhau yn peryglu adnewyddu'r drwydded. Mae Swyddogion Gorfodi Gwasanaethau Cymdogaeth yn patrolio ardaloedd caffis stryd i sicrhau cydymffurfiaeth â Dyletswydd Gofal ar gyfer darpariaethau gwastraff a sbwriel. Gall methu â chydymffurfio â darpariaethau gwastraff neu gyfraniad at sbwriel arwain at Hysbysiad Cosb Benodedig.

34. Rhaid i'r trwyddedai indemnio'r Cyngor yn erbyn pob cam gweithredu, hawliad, costau, taliadau neu dreuliau sy'n deillio o ddefnyddio'r briffordd dan y caniatâd a roddwyd. Bydd y Cyngor felly yn ei gwneud yn ofynnol i'r Trwyddedai sicrhau yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer trydydd partïon am o leiaf £5,000,000. Rhaid amgáu manylion yr yswiriant atebolrwydd trydydd parti gyda'r cais am drwydded caffi stryd.

35. Nid yw dyfarnu trwydded i weithredu caffi stryd yn ensynio hawl unigryw i'r ardal. Rhaid i weithredwr y caffi wybod y ceidw'r Cyngor yr hawl i gael mynediad i ardal y caffi at ddibenion glanhau, atgyweirio a chynnal a chadw'r briffordd neu gelfi stryd. Gallai bod angen mynediad ar sefydliadau eraill hefyd, megis ymgymerwyr statudol, i gynnal a chadw a thrwsio offer. Felly ceidw'r Cyngor yr hawl i atal y drwydded dros dro os, am unrhyw reswm, y daw hynny'n angenrheidiol.

36. Uchafswm yr oriau gweithredu ar gyfer trwydded caffi stryd yw rhwng 7am ac 11pm, er y gellir gosod rhychwant amser byrrach mewn achosion penodol os oes angen (megis gofynion dosbarthu, neu er mwyn diogelu amwynder preswylfeydd/busnesau cyfagos). Bydd newidiadau o'r fath i amseroedd a ganiateir yn cael eu rhestru ar y drwydded unigol.

37. Y tu allan i oriau trwyddedig, rhaid storio'r holl rwystrau a dodrefn caffi stryd* o fewn y safle cysylltiedig ac oddi ar y briffordd gyhoeddus. *Gellir storio blychau plannu y tu allan i'r safle, ond rhaid eu lleoli'n ddiogel yn erbyn ffryntiad y safle, rhaid iddynt beidio ag ymestyn mwy nag 1m i'r droedffordd a rhaid iddynt beidio â rhwystro mynediad i mewn ac allan o'r safle dan sylw nac eiddo cyfagos.

38. Ar gyfer rhai digwyddiadau mawr, megis gorymdeithiau, cyngherddau neu gemau chwaraeon, efallai y gofynnir i chi, am resymau diogelwch a diogelwch y cyhoedd, glirio eich holl ddodrefn a chyfarpar awyr agored tra bo'r digwyddiad yn mynd rhagddo, hyd yn oed os yw o fewn amseroedd eich trwydded. Os ydych fel arfer yn storio'r dodrefn y tu mewn i'ch safle, efallai y bydd yn rhaid i chi wneud trefniadau amgen ar gyfer storio wrth i chi barhau i fasnachu. O dan yr amgylchiadau hyn nid oes ad-daliad ar gael ar ffi'r drwydded.

39. Dan delerau Deddf Priffyrdd 1980, rhaid i'r Cyngor hysbysebu ceisiadau am drwydded caffi stryd o leiaf 28 diwrnod ymlaen llaw drwy osod hysbysiadau yn ardal y caffi stryd arfaethedig. Mae'r hysbysiadau yn cyflwyno manylion y cynigion ac yn gwahodd sylwadau gan bobl a allai gael eu heffeithio ganddynt.

40. Ymgynghorir â Heddlu De Cymru ar bob cais am gaffi stryd fel rhan o'r broses gwneud cais.

41. Mae ffi prosesu cais am drwydded caffi stryd yn cwmpasu costau gweinyddol a chyfreithiol yr eir iddynt wrth baratoi a dyfarnu'r drwydded. Mae'n seiliedig ar nifer y byrddau a chadeiriau y gwneir cais ar eu cyfer.

42. Ar ôl i'ch cais gael ei brosesu a'i gymeradwyo bydd swyddog cyllid yn cysylltu â chi i ofyn i chi dalu am y drwydded. Ni chyflwynir y drwydded nes telir amdani'n llawn. Bydd y Swyddog yn anfon e-gopi o'ch trwydded sy'n dangos yn union yr hyn y mae'r drwydded yn ei chwmpasu a'r dyddiad terfyn.

43. Yn gyffredinol, rhoddir trwyddedau am 12 mis (oni nodir yn benodol fel arall). Nodir y dyddiad terfyn ar y drwydded. Caiff trwyddedau eu hadnewyddu yn ôl disgresiwn y Cyngor.

44. Bydd y Cyngor yn cynnal archwiliadau achlysurol i sicrhau y glynir wrth holl delerau ac amodau'r drwydded. Gall y Cyngor atal neu ddiddymu trwydded os torrir unrhyw un o delerau ac amodau'r drwydded.

45. Gall methu â chael trwydded caffi stryd neu dorri telerau ac amodau trwydded arwain at erlyniad dan y drosedd o beri rwystr bwriadol o dan Ddeddf Priffyrdd 1980.

46. Os bydd newid i gyfeiriad gweithredol neu weinyddol, dwedwch wrth:

    Gwasanaethau Cymdogaeth – Cymorth Busnes
    Cyngor Caerdydd, Ystafell 223 Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd,
    CAERDYDD. CF10 4UW

    gwasanaethaucymdogaeth-cymorthbusnes@caerdydd.gov.uk